At: Y Swyddog Cyfrifol

5 Mehefin 2018

Annwyl Swyddog Cyfrifol,

Adolygiad o'r Amodau Cydnabod Safonol

Fel rydych yn ymwybodol rydym yn cynnal adolygiad o'n Hamodau Cydnabod Safonol, gyda'r nod o wneud yr Amodau mor hygyrch â phosibl i gyrff dyfarnu a sicrhau eu bod yn ein galluogi fel y rheoleiddiwr i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio.

Fe gynhaliwyd yr adolygiad rhwng hydref 2017 a haf 2018, ac rydym wrthi'n dadansoddi'r holl ffynonellau o dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ein Hadroddiad Cryno ar Haen 2 o'r adolygiad a gyhoeddwyd yn Ebrill 2018, fe ymrwymon ni i ymchwilio i Amod F ymhellach dros y misoedd nesaf cyn cadarnhau unrhyw gynigion i'w diwygio.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn awyddus i gynnal cyfres o grwpiau ffocws gyda chyrff dyfarnu er mwyn profi a mireinio rhai o'n cynigion ymhellach, gan gynnwys Amod F yn benodol (Darparu cymwysterau i brynwyr).

Fe fyddwch hefyd yn ymwybodol ein bod wedi cynnal ymgynghoriad yn gynharach eleni ar nifer o'n polisïau gorfodi. Fe roddodd yr ymgynghoriad dystiolaeth helaeth i ni ar safbwyntiau rhanddeiliaid o'n Polisi Capio Ffioedd, gan gynnwys yr angen i ddarparu eglurder pellach ar ba amgylchiadau y byddem yn ystyried eu defnyddio, ynghyd â phryderon ar yr effaith y gall cap o'r fath gael ar y system gymwysterau. Rydym yn bwriadu ailddrafftio'r polisi hwn a chyn gwneud hynny, yn awyddus i brofi a mireinio ein polisi arfaethedig ymhellach drwy gynnal trafodaethau grŵp ffocws â chi.

Yn olaf, mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn gwneud darpariaeth i ni osod amodau arbennig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu wneud trefniadau er mwyn sicrhau y caniateir i ffurf ar gymhwyster gael ei dyfarnu, neu sydd wedi ei

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

dyfarnu gan y corff, drosglwyddo i gorff dyfarnu arall. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel Amodau Trosglwyddo[1].

Nid oes gennym bolisi cyhoeddedig ar hyn o bryd, a'n bwriad yw ymgynghori ar bolisi drafft yn hwyrach eleni. Cyn ymgynghori, dymunwn godi ymwybyddiaeth cyrff dyfarnu o'r ddarpariaeth benodol hwn a'i drafod yn y grwpiau ffocws.

Mae gennym dri grŵp ffocws ar draws ystod o leoliadau. Dyma restr o'r lleoliadau a dyddiadau ar gyfer pob un:

Lleoliad	**Dyddiad**	**Amser**
etc venues, Maple House, 150 Corporation St, Birmingham B4 6TB	21 Mehefin 2018	10:00 – 15:00
The Space Centre, 94 Judd Street, Llundain WC1H 9NT	26 Mehefin 2018	10:00 – 15:00
Prifysgol Caerdydd, Neuadd Aberdâr, Heol Corbett, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3UP	28 Mehefin 2018	10:00 – 15:00

Byddem yn gwerthfawrogi eich cyfraniad a'ch arbenigedd yn y grwpiau ffocws yma, a gobeithio y byddwch yn derbyn ein gwahoddiad. Dylid nodi bod llefydd yn gyfyngedig ac y cânt eu neilltuo ar sail y cyntaf i'r felin. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi erbyn 12 Mehefin p'un a fyddai diddordeb gennych mewn danfon cynrychiolydd, ac i ba leoliad yr hoffech fynychu? Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr uchod, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â mi drwy polisi@cymwysteraucymru.org

Yn gywir

Rachel Heath-Davies
Pennaeth Polisi Strategol

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/schedule/3/enacted/welsh